# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

# CYNGOR GWYNEDD

# 2024-25

**RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno crynodeb o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2024-25 ac i gyflwyno tystiolaeth posib am effaith gwaith y pwyllgor.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yma yn bodloni gofynion statudol, ond rwyf yn mawr obeithio fod yr adroddiad yn gwneud mwy na "ticio blwch" yn unig a'i fod yn rhoi gwir ymdeimlad i'r darllenydd o'r hyn y mae'r Pwyllgor yn ei wneud, ac yn dangos sut mae Pwyllgor o'r fath yn gwneud gwir wahaniaeth.

Mae Cyngor Gwynedd, fel pob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus arall, yn wynebu ystod o risgiau a heriau. Yn ystod 2024/25 gwelwyd nifer o heriau llywodraethu, gan gynnwys newid Arweinydd. Serch hynny, credaf fod y trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle, sydd dan adolygiad parhaus y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, wedi dangos ei fod yn wydn dan amgylchiadau anodd iawn ac rwyf yn ddiolchgar i swyddogion ac aelodau am gydweithio i sicrhau fod y Cyngor yn gallu parhau i wneud ei orau ar ran pobl Gwynedd. Rwyf yn sicr fod sylwadau'r Pwyllgor wedi bod yn gymorth a chefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Wrth gwrs, mae heriau ariannol yn parhau a rwyf yn falch fod y Pwyllgor wedi cymryd rôl flaenllaw yn craffu sefyllfa gyllidebol Cyngor Gwynedd, gan herio fel bo'r angen, er mwyn gwneud yn sicr ar ran y trethdalwr fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r arian mae yn ei dderbyn. Gallwch weld o'r adroddiad yma faint o waith mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â fo yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn ddiolch i'r holl swyddogion, yr Aelodau Etholedig a'r Aelodau Lleyg am eu cefnogaeth a'u cyfraniad dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r cydweithio yma wedi bod yn amhrisiadwy. Roedd 2024/25 yn flwyddyn lle roedd rhai seddi gwag ar y Pwyllgor, o safbwynt Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg, ond rwyf yn falch o weld cynnydd y cael ei wneud i lenwi'r bylchau hyn ar gyfer 2025/26.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymwneud â'r cyfnod o Mai 2024 hyd Mai 2025, ac wrth gloi fy rhagair hoffwn gyfeirio at gyd-aelodau o'r Pwyllgor y bu i ni eu colli yn ddiweddar. Ar 4 Mai 2025, yn sydyn ac annisgwyl, bu farw Sharon Warnes, fy rhagflaenydd fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn. Roedd Sharon wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor ers 2017, ac roedd yn aelod gwerthfawr iawn o'r Pwyllgor ers hynny. Roedd Sharon yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod 2024/25 ac roedd colli Sharon mor sydyn yn fraw i bawb.

Yna, ddiwedd mis Mai clywsom ein bod wedi colli aelod arall o'r Pwyllgor sef y Cynghorydd Rob Triggs ar ôl cyfnod o salwch. Roedd Rob wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor ers 2022, a gwnaeth gyfraniad mawr i waith y Pwyllgor. Bydd colled fawr ar ei ôl.

**Mrs Carys Edwards**

**Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

**CYFLWYNIAD**

1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl barhaus yn y drefn o ddarparu llywodraethu dda. Pwrpas craidd y pwyllgor yw darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg a'r amgylchedd reolaeth gysylltiol, craffu annibynnol o berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau y mae'n effeithio ar ei amlygiad i risg ac yn gwanhau'r amgylchedd reolaeth, ac i oruchwylio'r broses adrodd ariannol.

2. Wrth gyflawni ei waith, mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i ganllawiau gwahanol gyrff a sefydliadau allanol gan gynnwys CIPFA.

3. Yn ôl Datganiad Sefyllfa CIPFA i Bwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022), diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

   *Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae rôl y pwyllgor yn sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch risg a rheolaeth lywodraethu ac felly yn rhoi mwy o hyder i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu bod y trefniadau hynny'n effeithiol.*

**CYFNOD YR ADRODDIAD**

4. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor am y cyfnod rhwng cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 9 Mai 2024 a'r cyfarfod blynyddol ar 1 Mai 2025. Cynhaliwyd 6 cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod cyfnod dan sylw:

   23 Mai 2024

   5 Medi 2024

   10 Hydref 2024

   28 Tachwedd 2024

   16 Ionawr 2025

   6 Chwefror 2025

**AELODAETH Y PWYLLGOR**

5. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 12 Cynghorydd ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd a chwe 'aelod lleyg', sef person nad yw'n aelod o awdurdod lleol. Serch hynny, roedd nifer o seddi gwag ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

6. Roedd presenoldeb yr aelodau yn y cyfarfodydd fel a ganlyn:

**Cadeirydd (Aelod Lleyg)**

| | 23/05/2024 | 09/05/2024 | 10/10/2024 | 28/11/2024 | 16/01/2025 | 06/02/2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Carys Edwards | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ |

**Is-Gadeirydd (Aelod Lleyg)**

| | 23/05/2024 | 09/05/2024 | 10/10/2024 | 28/11/2024 | 16/01/2025 | 06/02/2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhys Parry | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Cynghorwyr**

| | 23/05/2024 | 09/05/2024 | 10/10/2024 | 28/11/2024 | 16/01/2025 | 06/02/2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ |
| Cyng. Menna Baines | x | x | ✓ | x | ✓ | ✓ |
| Cyng. Meryl Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Cyng. Huw Rowlands | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Elwyn Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Edgar Owen | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Arwyn Herald Roberts | x | x | x | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Richard Glyn Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x |
| Cyng. Angela Russell | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | x |
| Cyng. Rob Triggs | x | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Dafydd Meurig[1] | | | | | x | ✓ |
| Cyng. Ioan Thomas | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Aelodau Lleyg**

| | 23/05/2024 | 09/05/2024 | 10/10/2024 | 28/11/2024 | 16/01/2025 | 06/02/2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Clare Hitchcock[2] | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Hywel Eifion Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sharon Warnes | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

[1] Wedi ymuno â'r Pwyllgor yn Ionawr 2025
[2] Wedi ymddiswyddo Rhagfyr 2024

**SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR**

7. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Rhan 6, Pennod 2 rhaid i Cyngor Gwynedd sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio gyda rhai swyddogaethau mandadol, ac mae ganddo hefyd yr hawl i gyflawni unrhyw swyddogaethau addas eraill.
8. Mae Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn pennu'r canlynol fel swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

**Swyddogaeth na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth**

Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd) yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**Swyddogaethau mandadol o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011**

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y diwygiwyd) :

(a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,

(c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol,

(ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(d) adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol

(e) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas a gallu'r awdurdod I ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol.

(f) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(g) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

(ng) Gweithredu swyddogaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu).

**Swyddogaethau Eraill**

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

(i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

(ii) canolbwyntio adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

(iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor neu Archwilio Cymru a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau’r adroddiadau.

## GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2024/25

### Adolygu a chymeradwyo'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod

9. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor gyfrifon terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, oedd yn cwmpasu Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2023/24 yn ogystal â'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 (yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru).

10. Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon drafft Cyngor Gwynedd yn amodol ar archwiliad 2023/24 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2024. Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad o Gyfrifon. Er hynny, ystyrir bod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn, ac yn gyfle i'r aelodau holi swyddogion ariannol am y cynnwys ac arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun. Yn ystod y drafodaeth bu'r Pwyllgor yn herio'r swyddogion Cyllid ar wahanol agweddau o'r cyfrifon, yn enwedig trefniadau'r Cyngor i gynnal ei gronfeydd ariannol.

11. Cyflwynwyd y Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, a'r archwiliad perthnasol, i gyfarfod y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024. Ar ôl ystyried adroddiad Archwilio Cymru ar y cyfrifon (adroddiad "ISA 260"), penderfynodd y Pwyllgor:

    - Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
    - Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2022/23 (ôl-archwiliad)
    - Is-gadeirydd y Pwyllgor ynghyd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg
    - Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o dderbyn datganiad diamod
    - Diolch i Archwilio Cymru am gydweithio da.

**Arolygu materion ariannol yr awdurdod, craffu arnynt, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

12. Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Pwyllgor ar 23 Mai 2024, mewn ymateb i'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Pwrpas y cynllun yw gosod allan y rhagolygon am sefyllfa'r Cyngor dros y dair blynedd ariannol nesaf gan gynnig rhagdybiaethau yn ogystal a chynigion i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu. Amlygwyd bod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 14 Mai 2024.

13. Adroddwyd fod y Cabinet wedi penderfynu comisiynu'r Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o fesurau a phecynnau gwaith, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried dulliau enwyd o ariannu gwasanaethau, yn rhoi darlun clir o gynaliadwyedd y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn gymorth i wneud penderfyniadau mewn cyfnod anodd. Ategwyd bod y Cynllun yn gynllun byw fydd yn cael ei ddiweddaru fel bydd gwybodaeth yn dod i law.

14. Ar ôl herio'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am gynnwys y Cynllun, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r risgiau perthnasol sy'n deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chefnogi penderfyniadau'r Cabinet.

Gwariant Refeniw

15. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol yr awdurdod yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad Alldro Refeniw ar y Cyfrifon Terfynol 2023/24 i gyfarfod 23 Mai 2024 er mwyn i'r Pwyllgor allu derbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2023/24, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Roedd yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2023/24, sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant yr adrannau unigol, a'r rhesymau am hynny. Diolchwyd am yr adroddiad a chydnabuwyd bod y cyfnod yn un heriol iawn i wasanaethau. Cafwyd trafodaeth eang lle mynegwyd pryder am sefyllfa gorwariant, toriadau a than-gyllido. Nodwyd gan y Pwyllgor fod derbyn adroddiadau parhaus ar y sefyllfa yn fuddiol, ond bod gorwariant sylweddol gan y Cyngor – a'n bod yn ffodus o fod ag arian wrth gefn. Serch hynny, roedd y Pwyllgor yn bryderus fod risg i'r gorwariant waethygu yn y tymor hwy, yn enwedig wrth i'r boblogaeth heneiddio.

16. Yn ogystal ag ystyried y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cynhelir adolygiadau ffurfiol o sefyllfa'r gyllideb refeniw yn ystod y flwyddyn, ar ddiwedd Awst a diwedd Tachwedd. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2024 i'r Pwyllgor ar 10 Hydref 2024, ac adroddiadau ar adolygiad diwedd Tachwedd 2024 i'r cyfarfod ar 16 Ionawr 2025. Ar yr achlysuron hyn penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a bu i'r Pwyllgor gytuno gydag argymhellion y Cabinet er mwyn ymdrin â'r sefyllfa o or-wariant oedd yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

17. Ymysg y materion a godwyd yn ystod y trafodaethau hyn roedd yr angen i'r Cabinet herio beth yw amserlen y gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i gael gwell dealltwriaeth o orwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant gan fod angen sicrwydd bod y gwaith yma yn ei le i osod cyllideb i'r Cabinet. Mynychodd Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyfarfod Ionawr 2025 i roi cyd-destun ac eglurhad llawnach ar benawdau cyllideb yr Adran gan fanylu ar sefyllfa gyllidol heriol yr Adran.

18. Nodwyd hefyd fod y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn achosi pryder. Os defnyddio'r arian yma, rhaid sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y llefydd priodol, sef ymateb i'r angen.

<u>Rhaglen Gyfalaf</u>

19. Ar 23 Mai 2024, cyflwynwyd Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2024) Rhaglen Gyfalaf 2023-24. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.

20. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2024 o'r rhaglen gyfalaf i'r Pwyllgor ar 10 Hydref 2024, ac ar adolygiad diwedd Tachwedd 2024 i'r cyfarfod ar 16 Ionawr 2025 er mwyn derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet.

<u>Rhaglen Arbedion</u>

21. Ynghlwm â'r adolygiad o sefyllfa'r gyllideb refeniw, mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau ar wahân yn ystod y flwyddyn ar allu'r Cyngor i wireddu ei gynlluniau arbedion. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd ar 10 Hydref 2024 a 16 Ionawr 2025 fel bod modd i'r Pwyllgor ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion.

22. Awgrymodd y Pwyllgor ffordd amgen o gyflwyno gwybodaeth, gan llunio tabl i'r dyfodol sydd yn gwahaniaethu rhwng y sefyllfa hanesyddol a'r sefyllfa ddiweddaraf fel bod bodd adnabod risgiau i'r sefyllfa gyfredol. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod yr arbedion 'hawsaf' wedi eu gwireddu – mae'r arbedion sydd angen eu gwireddu yn y dyfodol agos yn anodd ac felly bydd angen sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i osod amserlen briodol ar gyfer gweithredu a rhoi cyfle i adrannau gynllunio'n well i'r tymor hir, ond gan nodi fod hwn waith heriol iawn oedd wedi ei gyflwyno mewn modd dealladwy.

23. Oherwydd y bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf bu'n rhaid iddo ddatblygu cynlluniau arbed newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ymlaen. Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor i gyfarfod y Pwyllgor ar 6 Chwefror 2025, oedd yn cyflwyno cyfres o arbedion pellach ar gyfer 2025/26. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror. Roedd y Pwyllgor yn glir nad ei rôl oedd mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol oedd cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Penderfynodd y Pwyllgor:

- Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion
- Bod yr arbedion a gynigwyd yn rhesymol a chyraeddadwy
- Bod y risgiau a'r goblygiadau'r penderfyniad yn glir
- Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion
- Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr adroddiad i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo'r Cynllun Arbedion 2025/26 yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025.
- Croesawu gwahoddiad i'r gweithdai rhannu gwybodaeth

24. Yn ogystal â hynny, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried adolygu'r ymgynghoriad cyhoeddus i'r dyfodol i geisio barn trigolion am lefel treth, yn ogystal ag annog mwy o ymdrech i resymoli gwasanaethau.

<u>Rheolaeth Trysorlys</u>

25. Yn unol â threfniadau llywodraethu da yn ogystal â gofynion statudol, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Ar ôl derbyn diweddariad chwarterol ar 23 Mai 2024, cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod 5 Medi 2024 ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2023/24, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd diweddariad chwarterol Rheolaeth Trysorlys yng nghyfarfod 10 Hydref 2024, ac adolygiad canol blwyddyn Rheolaeth Trysorlys 2024/25 i gyfarfod 28 Tachwedd 2024. Pwrpas yr adroddiadau hyn oedd diweddaru'r Pwyllgor am wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Gosod Cyllideb

26. Wrth agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, bu’r pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gyllideb 2025/26 ar 6 Chwefror 2025 er mwyn craffu’r wybodaeth cyn i’r Cabinet argymell cyllideb 2025/26 i’r Cyngor llawn. Rôl y Pwyllgor yn y cyd-destun hwn oedd craffu’r wybodaeth gan sicrhau bod y Cabinet a’r Cyngor yn glir o’r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. I gynorthwyo’r gwaith yma, cafodd aelodau etholedig ac aelodau lleyg y Pwyllgor gyfle i fynychu Sesiwn Briffio ar y Sefyllfa Ariannol gan y Prif Weithredwr a’r Pennaeth Cyllid ar 28 Ionawr.

27. Ar ôl ystyried yr adroddiad a’i atodiadau, penderfyniad y Pwyllgor oedd derbyn yr adroddiad gan nodi’r cynnwys, derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a’r risgiau perthnasol a chyflwyno sylwadau o’r drafodaeth ar yr opsiynau i’r Cabinet eu hystyried wrth drafod Cyllideb 2025/26 yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025.

28. Nid oedd unrhyw bwynt penodol roedd y Pwyllgor yn ystyried fod angen dwyn sylw'r Cabinet na’r Cyngor Llawn iddo. Fodd bynnag, gwnaethpwyd y sylwadau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Bod lefel y dreth yn uchel - yn anodd ar drethdalwyr Gwynedd o ystyried bod sefyllfa'r blynyddoedd nesaf i weld yn gwaethygu. Angen osgoi codi treth eto.
- Croesawu bod y gyllideb yn gytbwys, ond angen cadw llygad ar y sefyllfa o ystyried bod prisiau tai yn uchel yng Ngwynedd a chyflogau yn isel.
- Yn diolch am y gwaith trylwyr o baratoi’r gyllideb.
- Bod defnydd o £8.8m o gronfa wrth gefn i weld yn sylweddol - yn amlygu pryder bod y gorwariant yn parhau. Angen i’r Adrannau geisio gweithredu o fewn eu cyllidebau.
- Bod rhaid sicrhau bod arian wrth gefn ar gyfer argyfwng.
- Os daw mwy o arian gan Lywodraeth Cymru, a fydd bwriad ei ddefnyddio i gryfhau’r gronfa wrth gefn yn hytrach na defnydd bidiau?

29. Hefyd yng nghyfarfod 6 Chwefror 2025 bu’r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Gyfalaf 2025/26 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg), a hynny er mwyn ystyried unrhyw risgiau sy’n codi o’r strategaeth cyn cyflwyno i’r Cyngor llawn ei dderbyn. Roedd y cyflwyniad roedd aelodau’r Pwyllgor wedi ei dderbyn ar 4 Chwefror gan Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, yn hynod ddefnyddiol wrth ymgymryd â’r dasg yma. Derbyniwyd yr adroddiad gan nodi’r wybodaeth a’r risgiau perthnasol, a cefnogwyd bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno’r Strategaeth i’r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar 6 Mawrth 2025.

**Hybu rheolaeth fewnol; Adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

Adroddiadau Archwilio Mewnol

30. Pwrpas Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ydi "Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio".

31. Mae adroddiadau archwilio mewnol yn arf pwysig felly i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.

32. Mae mwyafrif adroddiad Archwilio Mewnol yn gosod canlyniad y gwaith i un o bedwar categori o lefel sicrwydd, fel a ddangosir yn y tabl isod:

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

33. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2023/24 i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mai 2024. Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2023/2024, roedd y Rheolwr Archwilio o'r farn bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

34. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn ddiweddariadau ar waith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2023 hyd 31 Mawrth 2024 i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mai 2025. Amlygwyd bod 12 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau. O'r rhain, roedd 1 wedi derbyn barn "sicrwydd uchel", 8 wedi derbyn "sicrwydd digonol" a 3 "sicrwydd cyfyngedig".

35. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar 10 Hydref 2024 yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd 30 Medi 2024. Amlygwyd bod 11 o archwiliadau wedi eu cwblhau, gyda 4 ohonynt yn dangos lefel "sicrwydd uchel", 3 yn dangos lefel "sicrwydd digonol" a 4 "sicrwydd cyfyngedig".

36. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar 6 Chwefror 2025 yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2024 hyd 27 Ionawr 2025. Amlygwyd bod 9 o archwiliadau o Gynllun Gweithredol 2024/25 wedi eu cwblhau gyda phump ohonynt wedi derbyn lefel "sicrwydd digonol" ac phedwar wedi derbyn lefel "sicrwydd cyfyngedig".

37. Rhoddwyd sylw i'r holl gynnyrch yma yn eu tro gan y Pwyllgor. Lle roedd sicrwydd cyfyngedig, gwnaethpwyd cais am wybodaeth ddilynol er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor gyflawni ei ddyletswyddau.

38. Yn ychwanegol i'r uchod, cyflwynwyd canlyniad archwiliad arbennig ar y maes Gofal Cartref i'r Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024. Gosodwyd pedwar cwestiwn gan y comisiynwyr:

- Oes gan yr adran reolaeth gyllidol ddigonol ar y ddarpariaeth gofal cartref preifat?
- Oes rheolaeth weithredol ddigonol ar gomisiynu gofal cartref preifat?
- Ydi trefniadau rheoli risgiau ar y ddarpariaeth gofal cartref preifat yn ddigonol?
- Oes gan yr adran ddata rheolaethol effeithiol ar gyfer rheoli a chomisiynu gofal cartref preifat?

39. Pwysleisiwyd nad oedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygiad o'r gofal.

40. Nodwyd er bod model comisiynu gofal cartref yn un uchelgeisiol, fod heriau gweithredu a bellach mae elfen o ail-strwythuro wedi ei roi yn ei lle, gyda Grŵp Prosiect wedi ei sefydlu dan arweiniad y Pennaeth. Yn ogystal, amlygwyd bod rhaglen waith wedi ei llunio i gyfarch y gwendidau a'r blaenoriaethu ac y bydd Archwilio Mewnol yn derbyn gwahoddiad i fynychu'r Grŵp Prosiect.

41. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad a nodi'r wybodaeth gan nodi fod angen diweddariad pellach yn rhoi sicrwydd bod y sefyllfa yn gwella, gyda mewnbwn gan y Prif Weithredwr.

42. Mynychodd y Prif Weithredwr, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal gyfarfod y Pwyllgor ar 6 Chwefror 2025 er mwyn cyflwyno cynllun ymateb i'r adroddiad Archwilio Mewnol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Angen cyllideb ddigonol ar gyfer y gwaith - y gorwariant yn bryder.
- Bod gwendidau sylweddol yng ngweinyddiaeth yr Adran - angen sicrhau bod y mater yn cael ei oruchwylio. Oes sicrwydd bod y gwendidau wedi diflannu a /ynteu sicrwydd bod yr arian sydd yn cael ei dalu allan yn gywir?
- Bod data yn cael ei ddefnyddio yn briodol - derbyn bod diffygion gwybodaeth wedi bodoli, ond angen sicrwydd bod y model newydd yn sicrhau gwybodaeth gywir i reoli a monitro y sefyllfa yn well.
- Bod angen sicrhau bod llwyddiant yn cael ei fesur.
- Bod angen diweddariad ar y cynnydd a llwyddiant y rhaglen waith.

43. Penderfynwyd derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau gwaith Archwilio Mewnol ar drefniadau Gofal Cartref y Cyngor, croesawu'r Rhaglen Waith drylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth ond bod angen diweddariad pellach ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith.

<u>Adroddiadau Archwilwyr Allanol</u>

44. Ar 23 Mai 2024 cyflwynodd Archwilio Cymru ddwy adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd y cyntaf ohonynt, *Datblygu cynaliadwy? - gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag* yn adroddiad cenedlaethol. Cyflwynwyd ymateb y rheolwyr oedd yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda chynnwys yr ymateb.

45. Roedd yr ail adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod yma gan Archwilio Cymru yn adroddiad penodol i Cyngor Gwynedd, sef *Gosod Amcanion Llesiant*. Roedd yr archwiliad yn sefydlu sut wnaeth y Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant. Amlygwyd bod Cyngor Gwynedd wedi dechrau'r gwaith o osod amcanion llesiant newydd yn ystod 2022 gan gyhoeddi saith amcan newydd ym Mawrth 2023 fel rhan o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2023 - 2028. Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried canfyddiadau a phedwar argymhelliad Archwilio Cymru. Cyflwynwyd ymateb y sefydliad i'r argymhellion ac i'r Pwyllgor eu hystyried. Ar gyfer yr adroddiad yma hefyd, cyflwynwyd ymateb y rheolwyr oedd yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda chynnwys yr ymateb.

46. Ar 5 Medi 2024 cyflwynwyd adroddiad *Arolygiad o Wasanaethau Troseddau Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn* gan Arolygaeth Prawf EF i'r Pwyllgor. Penderfyniad y Pwyllgor oedd i dderbyn yr adroddiad ar ganlyniad ac argymhellion yr arolwg a llongyfarch y Gwasanaeth ar ganlyniadau'r arolygiad. Awgrymodd y Pwyllgor dylid ychwanegu canran y defnyddwyr sy'n derbyn gwasanaeth Gymraeg i'r ystadegau yn y dyfodol.

47. Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru *Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru* i'r Pwyllgor ar 10 Hydref 2024, yn ogystal ag ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio. Nodwyd bod gwaith a chanfyddiadau Archwilio Cymru wedi eu croesawu a bod yr ymateb yn un ar y cyd gan sefydliadau ar draws y rhanbarth, gyda Chyngor Gwynedd yn chwarae rhan allweddol yn y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Ategodd bod y rhanbarth yn cydnabod ac yn adnabod y gwelliannau sydd angen eu gweithredu i sicrhau cefnogaeth i gleifion ar ôl dod adref ac y byddai Gwynedd yn gwneud pob ymdrech i gydweithio gyda'r holl bartneriaethau i ymateb i'r heriau hyn. Nododd hefyd bod nifer o'r materion yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd derbyn cynnwys yr adroddiad, gan ofyn am ddiweddariad ar yr argymhellion ymhen 12 mis.

48. Ar 16 Ionawr 2025 cyflwynwyd dwy adroddiad Archwilio Cymru, sef adroddiad cenedlaethol *Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol* yn ogystal ag adroddiad lleol *Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd*. Cyflwynwyd Ffurflen Ymateb Rheolwyr i argymhelliad yr adroddiad lleol hefyd. Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod angen ychydig mwy o fanylder yn y cynllun gweithredu, ond nodwyd mai cychwyn y daith oedd y camau a nodwyd ac yn dilyn cefnogaeth a chanllawiau gan CIPFA, bydd gwaith o ddechrau llunio rhaglen waith ar gyfer y strategaeth yn dechrau canol Mawrth 2025, gyda bwriad o gyflwyno rhaglen waith manwl ym Mawrth 2026.
- I dreialu cyllideb di-sylfaen *(zero-based budget)* i drawsnewid rhai gwasanaethau
- Bod yr adroddiadau yn ddefnyddiol ac yn edrych ar y darlun mawr
- Bod rhai Cynghorau mewn sefyllfa well na'i gilydd i ddygymod â'r heriau ariannol
- Bod angen cywiro cyfieithiadau enwau llefydd ar y mapiau sydd yn yr adroddiad cenedlaethol
- Derbyn sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor, ond at bwrpas penodol ac nid i wireddu arbedion.

49. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol a derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion.

50. Cyflwynwyd Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 i'r Pwyllgor yn ein gyfarfod ar 5 Medi 2024. Roedd y crynodeb hwn yn dangos y gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol blaenorol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023. Mae'r crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

51. Un o orchwylion blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ydi adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Mae'r datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod Ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae gan y Pwyllgor rôl allweddol yn gwirio a herio ei gynnwys.

52. Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor ar 5 Medi 2024. Bu'r Pwyllgor yn herio gynnwys y datganiad, a gwneud arsylwadau ar rai o'r sgoriau risg, yn enwedig yr angen i adolygu sgôr tebygolrwydd Cyfreithlondeb (gwnaethpwyd hyn yn dilyn y cyfarfod a daeth y Grŵp Llywodraethu i'r casgliad ei fod yn briodol). Penderfynwyd cymeradwyo'r datganiad ac argymell bod Arweinydd y Cyngor a Prif Weithredwr y Cyngor yn ei arwyddo.

53. Wrth symud ymlaen, mae angen ystyried adolygu'r cwestiynau ac addasu'r ddogfen i fod yn eglur i drigolion. Er is fod yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA, awgrym i ystyried cyfuno gyda'r asesiad o drefniadau llywodraethu sydd wedi ei gynnwys yn Hunanasesiad Cyngor Gwynedd i osgoi dyblygu gwaith.

Gweithgor Gwella Rheolaethau

54. Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn ystod y flwyddyn, a hynny ar 28 Tachwedd 2024 gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Carys Edwards, Rhys Parry (Is-Gadeirydd) a'r Cynghorwyr Angela Russell a Ioan Thomas, swyddogion Archwilio Mewnol a swyddogion o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn bresennol. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Hydref 2024 i alw'r archwiliadau canlynol gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau:

- Plas Pengwaith
- Llys Cadfan
- Plas Hafan.

55. Adroddwyd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024 bod y cyfarfod wedi bod yn fuddiol gan roi cyfle i swyddogion a rheolwyr y cartrefi ymateb yn onest i'r sefyllfa. Nodwyd gan y Pwyllgor fod pryder am gostau staff asiantaethau gan awgrymu bod angen cynnal adolygiad i geisio cadw staff o dan reolaeth Cyngor Gwynedd gan byddai hyn yn lleihau trosiant. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen cyfeirio argymhellion yr adroddiad at sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal, a gwnaethpwyd awgrym ar wella adroddiadau'r Gweithgor i'r dyfodol trwy gynnwys crynodeb o'r materion sydd angen sylw i'w cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad.

Adolygiad y Cyfansoddiad

56. Ar 9 Chwefror 2025 cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Monitro a'r Rheolwr Caffael yn diweddaru'r Pwyllgor ar newidiadau i Reolau Gweithdrefn Contractau sydd yn digwydd yn sgil y Ddeddf Caffael 2023. Nodwyd mai prif amcan y gwaith yw newid Cyfansoddiad y Cyngor a threfniadau canolog i gyfarch newidiadau'r Ddeddf.

57. Penderfynwyd derbyn y newidiadau i Reolau Gweithdrefn Contractau sydd yn digwydd yn sgil Deddf Caffael 2023, a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth er mwyn eu mabwysiadu.

Cynllun Rheoli Asedau

58. Ar 23 Mai 2024, gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y gwaith ar y Cynllun Rheoli Asedau diwygiedig. Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn gofyn i'r aelodau graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau bod y ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno yn seiliedig ar wybodaeth gadarn a bod priodoldeb y broses o sefydlu'r blaenoriaethau wedi eu hystyried yn llawn, cyn i'r Cabinet ystyried y Cynllun yn ei gyfarfod 11 Mehefin 2024.

59. Ar ôl holi'r Prif Weithredwr am faterion yn y Cynllun drafft, a'r rhaglen gyfalaf, penderfynwyd derbyn yr adroddiad, cymeradwyo priodoldeb y broses o sefydlu blaenoriaethau'r Cynllun a chefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet (11 Mehefin 2024) i gymeradwyo'r Cynllun.

Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Sefydlu Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

60. Ar 10 Hydref 2024 cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth gydag argymhelliad fod y Pwyllgor yn enwebu un cynghorydd i wasanaethu ar Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac un cynghorydd i weithredu fel dirprwy ar gyfer yr aelod hwnnw. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd benderfynu a yw'n dymuno enwebu Aelod Lleyg i Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

61. Penderfyniad y Pwyllgor oedd i enwebu'r Cynghorydd Ioan Thomas i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac enwebu'r Cynghorydd Richard Glyn Roberts i weithredu fel dirprwy, gan enwebu Carys Edwards (Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gwynedd) i'w hystyried i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel un o'r aelodau lleyg.

Adolygiad o Ddosbarthiadau a Mannau Pleidleisio

62. Cyflwynwyd adroddiad ar yr Adolygiad o Ddosbarthiadau a Mannau Pleidleisio i'r Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024. Pwrpas yr adroddiad oedd i roi cyfle i'r Pwyllgor ystyried canlyniadau'r adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a'r mannau pleidleisio yn etholaethau seneddol Dwyfor Meirionnydd a Bangor Aberconwy i'r graddau y maent o fewn Gwynedd, yn dilyn cyfnod ymgynghori, er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am benderfyniad.

63. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol rannu'u hardal i ddosbarthiadau pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol y DU, ac i ddynodi mannau pleidleisio ar gyfer y dosbarthiadau pleidleisio hyn. O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006 mae'n ofynnol hefyd i'r Cyngor adolygu pob dosbarth bleidleisio a'r mannau pleidleisio bob pum mlynedd. Roedd adolygiad statudol wedi ei gynnal rhwng 23 Medi 2024 a 1 Tachwedd 2024.

64. Ar ôl ystyried yr adroddiad a holi'r swyddogion, penderfyniad y Pwyllgor oedd i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo canlyniadau'r adolygiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2024.

**I adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

65. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2023/24 i'r Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024, er mwyn diweddaru'r Pwyllgor o gynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsman a threfniadau'r Cyngor o safbwynt ymdrin â chwynion.

66. Atgoffwyd yr Aelodau bod gofyn statudol ar y Pwyllgor i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Ategwyd, ni fu unrhyw newid yn y drefn na'r Polisi Pryderon a Chwynion yn ystod 2023/2024 ac felly bod cynnwys llythyr yr Ombwdsman yn seiliedig ar y Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2021.

67. Adroddwyd bod y Llythyr Blynyddol wedi dod i law 9fed o Fedi 2024. Cyfeiriwyd at rai sylwadau ac argymhellion a wnaethpwyd gan yr Ombwdsmon oedd yn cynnwys, "Byddwn yn annog Cyngor Gwynedd, ac yn benodol, eich Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eich perfformiad o ran cwynion yn well ac ystyried pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion yn dda wedi'i wreiddio ledled yr Awdurdod".

68. Ar ôl trafodaeth ar ei gynnwys, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

**Arolygu a monitro trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod**

Rhaglen Waith Archwilio Mewnol

69. Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o Siarter Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mai 2024. Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus 2013 (diwygiedig 2017) rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol gyda chynnwys y Siarter yn cyfarch Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) a gyhoeddwyd gan CIPFA. Cyfrifoldeb y Pwyllgor yw cymeradwyo'r siarter yn flynyddol.

70. Tynnwyd sylw at yr angen yn y flwyddyn nesaf i ddiweddaru'r Siarter Archwilio i adlewyrchu gofynion newydd "Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang" (*Global Internal Audit Standards*) fel y cyhoeddwyd gan yr *Institute of Internal Auditors* (IIA). Bydd angen i'r addasiadau fod yn weithredol erbyn 2025. Cyfeiriwyd hefyd at un newid arall ers cymeradwyo siarter 2023/24, sef bod pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ei ehangu.

71. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.

72. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2024/25.

73. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y cynnydd ar waith y cynllun archwilio yn ei gyfarfodydd ar 10 Hydref 2024 a 6 Chwefror 2025. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Cymeradwywyd addasiadau i'r cynllun er mwyn adlewyrchu'r adnoddau oedd wedi bod ar gael i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Rhaglen Waith Archwilio Cymru

74. Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Manwl 2024 gan Archwilio Cymru i gyfarfod 5 Medi 2024. Roedd y cynllun yn nodi'r gwaith roedd yr archwilwyr yn bwriadu ei wneud fel modd o gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel archwilydd allanol y Cyngor ac yn unol â'u rôl o dan Còd Ymarfer Archwilio. Nodwyd byddai'r archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar risgiau'r Cyngor a meysydd pwyslais eraill, a byddai'r archwiliad o berfformiad yn cynnwys asesu Sicrwydd a Risg, a gwaith lleol ar yr ymateb i'r galw presennol am ofal cartref, a strategaeth y Cyngor ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn.

75. Mae'r Cynllun Manwl yn cyfeirio at risgiau sylweddol i'r datganiadau ariannol (h.y. Gwrthwneud gan y Rheolwyr) sydd yn berthnasol i bob Awdurdod Lleol, ynghyd â meysydd eraill byddai'r gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt, sef prisio tir ac adeiladau a phrisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn.

76. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd y diweddariadau chwarterol canlynol i'r Pwyllgor ar waith y cyrff adolygu:

- Chwarter 4 2023/24 i gyfarfod 23 Mai 2024
- Chwarter 1 2024/25 i gyfarfod 5 Medi 2024
- Chwarter 2 2024/25 i gyfarfod 28 Tachwedd 2024.

**Swyddogaethau Deddf 2021 – Perfformiad y Cyngor**

77. Mae'n ofyn statudol newydd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn cynhyrchu "adroddiad hunanasesu" sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion perfformiad sydd wedi eu gosod allan yn y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'r un darn o ddeddfwriaeth yn nodi fod rhaid i'r Cyngor sicrhau bod fersiwn ddrafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio (Adran 91(6)).

78. Cyflwynwyd adroddiad hunanasesiad drafft ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor ar 5 Medi 2024 a chafwyd trafodaeth fanwl ar y cynnwys. Ar ôl trafod, penderfyniad y Pwyllgor oedd i dderbyn yr hunanasesiad drafft, ond gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer cryfhau'r adroddiad unai ar gyfer 2024/25 neu mewn blynyddoedd i ddod.

79. Ymysg y sylwadau a wnaethpwyd oedd fod angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses a gwnaethpwyd awgrym fod gweithdy'n cael ei gynnal gyda'r Aelodau fel bod y Pwyllgor yn cael mewnbwn a gwell cyfle i gynnig argymhellion.

80. Awgrymwyd hefyd ystyried trefniadau ymgynghori priodol i'r dyfodol i sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd yn y broses, ac wrth gyflwyno data fod angen sicrhau eglurhad llawn. O ran Cynyddu Cyflenwad o Dai i Bobl Leol awgrymodd y Pwyllgor fod angen amlygu'r effaith ac nid y nifer yn unig.

**Monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion archwilwyr allanol a rheoleiddwyr**

81. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2025. Yn unol â'i rôl statudol, mae angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

82. Ar sail yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, a'r gwaith herio a gyflawnwyd yn ystod y ddau gyfarfod, roedd y Pwyllgor yn fodlon fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i argymhellion a chynigion gwella adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddwyr yn gadarn.

83. Penderfynwyd derbyn a nodi bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella yn cael eu gweithredu. Croesawyd y trefniadau newydd i adrodd ar gynnydd adroddiadau archwilio allanol pob 6 mis i'r Pwyllgor a croesawyd hefyd y penderfyniad bod ymatebion i'r adroddiadau yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad yr Adran berthnasol o hyn ymlaen.

**Ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

84. Cyflwynwyd un adroddiad ar ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, sef diweddariad gan y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor i gyfarfod 23 Mai 2024 ar y gwaith o gynnal Asesiad Perfformiad Panel o fewn y Cyngor.

85. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod cyfrifoldeb ar Gynghorau i gynnal Asesiad Perfformiad Panel unwaith o fewn cylch etholiadol. Daeth y ddyletswydd i rym ym mis Mai 2022. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a gyflwynir gan gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion gan ganolbwyntio yn benodol ar y meysydd posibl i'r Panel edrych arnynt.

86. Yn ychwanegol i'r materion oedd eisoes wedi eu rhestru yn yr adroddiad, cynigiodd y Pwyllgor dylai'r Panel ystyried cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol fel meysydd posib i'r Panel edrych arno.

**Effeithiolrwydd y Pwyllgor**

87. Derbyniodd y Pwyllgor diweddariad ar y camau sydd wedi eu gwneud i weithredu ei benderfyniadau i bob un o'i gyfarfodydd yn ystod 2024/25. Cred y Pwyllgor fod hyn yn gam arwyddocaol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol.

88. Cynhaliwyd gweithdy yn swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, ar 3 Ebrill 2024. Defnyddiwyd hwylusydd allanol i gefnogi'r gweithdy, sy'n brofiadol iawn yn y maes archwilio. Roedd ymdeimlad fod y gweithdy wedi bod yn un gwerthfawr a defnyddiwyd canllawiau CIPFA, a defnyddiwyd y Cwestiynau arfer da sy'n ymddangos yng nghyhoeddiad CIPFA "*Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities*" er mwyn cynnal adolygiad lefel uchel sy'n ymgorffori'r egwyddorion allweddol a nodir yn Natganiad Safbwynt CIPFA.

89. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2024 cytunodd y Pwyllgor i dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr hunan-asesiad o ymarfer da a chymeradwyo a chefnogi'r camau gweithredu. Nodwyd fod angen adnabod cyfleoedd i atgyfnerthu perthynas rheoleiddwyr allanol ac Archwilio Mewnol.

90. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ym mhob cyfarfod (os nad oedd hynny'n anymarferol) ar gynnydd yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor, ac fel rhan o'r cynllun gweithredu i'r hunan-asesiad caiff blaen-raglen dreigl ei gyflwyno i bob cyfarfod.